O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# CAFFAEL TIR, CYMRU

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau malltod yn adrannau 149 i 171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") yn galluogi personau sydd â buddiannau penodol mewn categorïau o dir (gan gynnwys tir y mae cynigion cynllunio a chynigion priffyrdd penodol yn effeithio arno) i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol gaffael eu buddiant yn y tir. Mae'r categorïau o dir wedi eu pennu yn Atodlen 13 i'r Ddeddf.

Un o'r buddiannau mewn tir yng Nghymru sy'n gymwys i'w ddiogelu yw buddiant perchen-feddiannydd hereditament pan na fo gwerth blynyddol yr hereditament yn fwy nag unrhyw swm a ragnodir gan Weinidogion Cymru. Ystyr "hereditament" yw hereditament perthnasol o fewn ystyr adran 64(4)(a) i (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Mae'r Gorchymyn hwn yn codi'r terfyn gwerth blynyddol o £34,800 i £36,000 o ran Cymru.

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011 wedi ei ddirymu.

Mae asesiad effaith wedi ei lunio mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Mae copïau ar gael oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# CAFFAEL TIR, CYMRU

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Mehefin 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *13 Mehefin 2019* |
| *Yn dod i rym* | *5 Gorffennaf 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 149(3)(a) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2019 a daw i rym ar 5 Gorffennaf 2019.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Terfyn gwerth blynyddol

**2.** £36,000 yw'r swm a ragnodir at ddibenion adran 149(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(**1**) 1990 p. 8.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011([1]) wedi ei ddirymu.

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
11 Mehefin 2019

(**1**) O.S. 2011/435 (Cy. 63).